**CADEIRYDD GRŴP FFRAMWAITH CYMRU AR IECHYD A LLES ANIFEILIAID**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 22 Tachwedd 2017**

**Yn bresennol:**

Peredur Hughes (PH) Cadeirydd
Ifan Lloyd (IL)
David Davies (DD)
Moss Jones (MJ)
Abi Reader (AR)
Paula Boyden (PB)

**Llywodraeth Cymru**
Christianne Glossop (Rhan o'r Cyfarfod) Prif Swyddog Milfeddygol Cymru
Gavin Watkins (GW) Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Paul Critchley (PC) Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Irene Allen (Rhan o'r cyfarfod) Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Candice Boyes (CB) Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Nikki Fitzgerald (NF) Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol

Graeme Cook (Eitem 3) Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol y DU
John Griffiths & Neil Paton (Eitem 7) Gwaredu BVD

**Ymddiheuriadau**
Jo Price (JP)

**<u>Eitem 1: Croeso</u>**

1. Croesawodd y Cadeirydd, Terri Thomas (TT), aelodau i gyfarfod y grŵp. Dywedwyd y byddai'n gyfarfod llawn a phrysur.

2. Diolchodd i bawb am fod yn bresennol a chroesawu Candice Boyes, a ymunodd ag OCVO yn ddiweddar ac a fydd yn arwain ar Gyfathrebu i'r grŵp.

**<u>Eitem 2: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o'r 14 Mehefin</u>**

3. Eglurodd y Cadeirydd bod y cofnodion terfynol a'r pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd wedi eu hanfon mewn ebost at Aelodau'r Grŵp fel rhan o'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

4. Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod.

5. Dywedodd y Cadeirydd bod Jackie Price i fod yn absennol o'r gwaith am gyfnod oherwydd damwain car. Anfonodd y grŵp eu dymuniadau gorau.

**Cam Gweithredu 1 >** Anfon llythyr at Jackie gyda dymuniadau gorau'r grŵp (Ysgrifenyddiaeth ) **Cwblhawyd 06/12/17**

**Cam Gweithredu 2 >** Ysgrifennu at Michael Seal fel grŵp i ddatgan nad oedd yn dderbyniol gofyn am Gynrychiolaeth yn Saesneg yn unig o'r Grŵp. (Yr Ysgrifenyddiaeth)

**<u>Eitem 3: </u> Adolygiad o AHSGB - Graeme Cooke**

6. Croesawodd y Cadeirydd Graeme Cooke (GC), Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol y Deyrnas Unedig

7. Bu GC yn trafod y cefndir a'r rheswm dros y gwaith sy'n cael ei wneud. Dywedwyd nad oedd arweinwyr polisi a phartneriaid y gweinyddiaethau yn cyfarfod mor rheolaidd ag oedd angen. Mae hyn yn arwain at ei gwneud yn anodd i sylwi ar unrhyw faterion brys ac i weithredu arnynt.

8. Bu GC yn trafod yr argymhellion yn bennaf o ran sut y byddai bwrdd newydd ledled y DU yn gweithio. Roedd y Grŵp yn pryderu na fyddai Cymru yn cael ei chynrychioli. Rhoddodd GC sicrwydd na fyddai hyn yn digwydd ac mae'n gobeithio derbyn adborth da o Gymru gan bod gennym gysylltiadau cryf â'r diwydiant a gweithio mewn partneriaeth.

9. Cynigiodd GC y byddai Bwrdd Cymru yn dod i ben ac yn dod yn rhan o sefydliad i gofnodi ledled y DU o fis Mawrth 2018.

**Pwynt Gweithredu 3 >** Anfon Bywgraffiadau o aelodau'r Grŵp at Graeme (Ysgrifenyddiaeth)
**Cwblhawyd 19/12/17**

**Pwynt Gweithredu 4 >** Graeme i gysylltu â Bwrdd Gwyliadwriaeth Cymru, copi at y Grŵp Fframwaith, i roi amlinelliad o'r gwaith sydd ar y gweill.

**<u>Eitem 4: Y Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd</u>**

**Cyfarfod y Pedwar Cadeirydd**

10. Roedd y Cadeirydd yn bresennol yng Nghyfarfod y Pedwar Cadeirydd, a gynhelir pob chwe mis, yn Belfast ar 12 Hydref. Roedd y pedwar cadeirydd (neu aelodau cyfatebol) o'r gweinyddiaethau datganoledig yn y cyfarfodydd ac roedd hyn yn gyfle i ddal i fyny a derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar feysydd a blaenoriaethau pawb.

11. Yn y cyfarfod, trafodwyd Brexit a'r goblygiadau o ran ffiniau, gwyliadwriaeth, ymwrthedd gwrthfiotig, TB, Dyfeisiadau Adnabod Electronig i Wartheg a dolur rhydd feirysol y gwartheg. Bydd Cymru yn cynnal Cyfarfod nesaf y Pedwar Cadeirydd ym mis Ebrill.

12. Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Nghymru ym mis Ebrill.

**Cyfarfod gyda Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

13. Yn anffodus, cafodd y cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Tachwedd ei ohirio. Dyddiadau yn cael eu trafod ar gyfer y dyfodol.

**Dolur rhydd feirysol y gwartheg**

14. Mae'r rhaglen dolur Rhydd Feirysol y Gwartheg, yn parhau i gael ei rhedeg yn dda o ran llywodraethu ffurfiol am gyllid, targedau ac ati, a sut y maent yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae teimlad bod angen mwy o adborth ar lawr gwlad. Teimlodd y Cadeirydd ei fod yn bwysig i'r grŵp gytuno ar pa broses sydd ei hangen i gael yr wybodaeth real ar y rhaglen gan y milfeddygon/ffermwyr sy'n rhan o'r rhaglen.

15. Dywedodd IL i'r Gweithlu Gorchwyl a Gorffen / Is-grŵp dolur rhydd feirysol y gwartheg gyfarfod ar 20 Tachwedd. Roedd yr adborth gan y grŵp o ran y gwaith yn bositif. Er eu bod yn deall nad oedd angen is-grŵp Gorchwyl a Gorffen bellach, hoffai'r rhai sy'n rhan o'r grŵp barhau i fod yn rhan o unrhyw fwrdd/grŵp llywio yn y dyfodol.

16. Cytunodd y Cadeirydd bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi gwneud gwaith gwych, ond y dylai'r grŵp adborth fod yn llai a chanolbwyntio mwy ar ddeall yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad gan ffermwyr/milfeddygon sy'n rhan o'r rhaglen. Am dderbyn sicrwydd ei fod yn gweithio fel y dylai.

17. Crybwyllodd AR ochr gyfathrebu'r rhaglen ar gyfer dolur rhydd feirysol y gwartheg (BVD). Mae'r adborth gan y diwydiant yn bositif, ond mae angen i'r cyfathrebu a'r cysylltiad gyda'r hyn sy'n digwydd barhau i fod yn gadarn. Mae angen i'r wybodaeth ddod oddi wrth Gwaredu BVD, ond cytunwyd bod angen dull i'r ffermwyr roi adborth i'r gadwyn.

18. Cytunodd pawb bod grŵp i roi adborth i'r diwydiant yn hanfodol a bydd hyn yn cael ei godi yn ystod Eitem 7.

**Pwynt Gweithredu 5 >** Llythyr gan yr is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yn diolch iddynt am eu gwaith. (Yr Ysgrifenyddiaeth)

**Eitem 5: Cofrestr Troseddu yn Erbyn Anifeiliaid yng Nghymru**

19. Cafodd y grŵp ei atgoffa o'r ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan yr RSPCA.

20. Codwyd pryderon ynghylch pwy fyddai'n cael defnyddio'r gronfa ddata hon a phwy fyddai'n ariannu hyn ac yn "berchen" arno.

21. Rhoddodd IA yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp ar y broses sy'n cael ei defnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir y byddwn yn dilyn yr un ddedfryd â Llywodraeth y DU. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn realistig a byddai'n disgwyl i'r grŵp ymateb i ganfyddiadau. I ddod ar ddechrau 2018.

22. Cytunodd y Grŵp i barhau i fod yn ddi-duedd ac felly ni fyddai'n ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad, ond hoffai ymateb i'r adroddiad. Fodd bynnag, os oedd aelodau'r grŵp am ymateb yn unigol o fewn eu swyddogaethau ffurfiol, yna roedd hynny yn iawn.

23. Gofynnodd PB a fyddai rhywfaint o ystyriaeth o sut fyddai anifeiliaid yn cael eu rheoli pe byddai hyn yn dod i'r Uchel Lys. Mae achosion o anifeiliaid yn cael eu cadw am dros flwyddyn cyn cynnal achos. Nodwyd y pwynt hwn gan IA.

24. Cytunodd y Grŵp i roi'r eitem o'r neilltu am y tro ac aros am gynnig gan y Gweinidog gyda rhagor o wybodaeth am hyn.

**Eitem 6: Y Diweddaraf am Y Clafr a Iechyd Anifeiliaid**

25. Rhoddodd MJ yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp ar y problemau parhaus sy'n cael eu hwynebu gyda'r clafr ac nad yw ffermwyr yn rhoi'r driniaeth iawn ac ati.

26. Bu MJ yn trafod yr opsiwn o ddefnyddio cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig i gefnogi'r gwaith o wella'r dull o reoli'r clafr ar stoc byw yng Nghymru.

27. Rhoddodd NF a PC amlinelliad o broses y Cynllun Datblygu Gwledig. Dylai'r Mynegi Diddordeb gynnwys Cam 1 a Cham 2 gan y byddai hyn yn gwneud y broses yn gynt wrth baratoi cais 'terfynol'.

28. Dywedodd PC y byddai'n fuddiol i sicrhau bod y datganiadau o ddiddordeb yn cyd-fynd â'r meini prawf a amlinellwyd yn y canllawiau, yn benodol 16.2 - *cymorth i brosiectau peilot ac i ddatblygu cynnyrch, arferion, prosesau a thechnolegau newydd*

29. Rhai cwestiynau ynghylch pwy fyddai'n derbyn y swyddogaeth o gyflwyno a datblygu'r gwaith hwn. Mae grwpiau fyddai'n barod i wneud hynny. MJ yn mynd i gyfarfod ar 23 Tachwedd, a bydd yn rhoi adborth.

30. Crybwyllodd GW holi Menter a Busnes gan ei bod yn bosibl bod ganddynt rhywun allai hyrwyddo hyn gan y byddent yn gyfarwydd â phrosesau tebyg i'r cais ar gyfer BVD.

31. Diolchodd y Grŵp i MJ am ei holl waith hyd yma gan gytuno bod angen i'r gwaith hwn ddechrau nawr a bod ganddo gefnogaeth y grŵp. Gofynnodd y Cadeirydd i MJ ddechrau'r broses a rhoi'r newyddion diweddaraf i'r grŵp.

32. Dywedodd GW y byddai'r newyddion diweddaraf am gynllunio Iechyd Anifeiliaid yn dechrau'n fuan a diolchodd i MJ am ei holl waith caled a'i gefnogaeth ar hyn.

**Pwynt gweithredu 6>**Anfon Canllawiau ar y Cynllun Datblygu Gwledig at Moss (Ysgrifenyddiaeth) **Cwblhawyd 24/11/17**

**Eitem 7: Y Diweddaraf ar Waredu BVD**

33. Croesawodd y Cadeirydd John a Neil gan ddiolch iddynt am gymryd amser i roi'r newyddion diweddaraf i'r grŵp.

34. Rhoddodd John a Neil gyflwyniad PowerPoint i roi'r newyddion diweddaraf i'r grŵp ar ddatblygiadau rhaglen Gwaredu BVD.

35. Yn ogystal â'r cysylltiad positif iawn gyda milfeddygon preifat aeth Neil hefyd i gynhadledd APHA gan eu bod hefyd yn cwblhau oddeutu 10% o'r profion TB mewnol bob blwyddyn.

36. Dywedodd IL y bu'r profiad yn bositif ar y cyfan a'i fod wedi gweld bod ffermwyr yn awyddus i chwilio am wybodaeth PI pan fo angen. Dywedodd Neil y byddai'r chwilio am wybodaeth PI yn dechrau fis Ionawr 2018.

37. Gofynnodd y cadeirydd beth oedd Gwaredu BVD yn ei wneud o ran cael rhagor o adborth gan ffermwyr /milfeddygon ar lawr gwlad. Rhoddodd John amlinelliad o syniad a allai olygu sefydlu grŵp cysylltu â ffermwyr;
    - Cymysgedd o gynrychiolwyr o ffermydd bach a mawr
    - ledled Cymru
    - sydd â rhwng 8-10 o aelodau
    - Bosibl defnyddio'r rhain fel mentoriaid/astudiaethau achos ac ati.
    - Byddent yn rhoi adborth ffurfiol i'r Is-Grŵp T&F presennol a fydd yna'n rhoi adborth ffurfiol i Gwaredu ayb.

38. Teimlai'r Grŵp bod hyn yn gam positif a chytunwyd ar y dull hwn o weithio. Fodd bynnag, i bwy fyddent yn bwydo gwybodaeth pe na fyddai'r grŵp T&F yn bodoli bellach? Teimlai MJ bod angen i rai o'r aelodau hynny aros gan bod ganddynt y profiad a'r wybodaeth.

39. Gofynnodd IL am sesiwn o wersi wedi eu dysgu, gan y byddai hyn o gymorth i bob grŵp sy'n rhan o'r rhaglen BVD. O bosibl wedi blwyddyn. Cytunodd John.

40. Crybwyllodd GW y trafodaethau a ddigwyddodd yng nghyfarfod yr Is-grŵp T&F ar sut y gellid edrych ar y ddeddfwriaeth ar gyfer y gwaith hwn, a fyddai'n bosibl ei ychwanegu at ddeddfwriaeth bresennol/defnyddio beth sydd yno. Dywedodd y Cadeirydd y dylai hyn fod yn ddeddfwriaeth bwrpasol a'r posibiliadau o ddysgu gan DAau eraill.

41. Gofynnodd DD a fyddai'n bosibl i'r newyddion diweddaraf ar BVD fod yn eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf CHAWG ym mis Ionawr, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.

**Pwynt gweithredu 7>**Ffigurau profi blynyddol ar gyfer TB i'w dosbarthu i Gwaredu BVD (PC)

**Pwynt gweithredu 8 >** John i Fapio cyfnodau y rhaglen, nid dros 3 mlynedd yn unig ond sut y byddant yn edrych ar y ddeddfwriaeth. Rhannu gyda'r Grŵp (Gwaredu BVD)

**Pwynt Gweithredu 9 >** Ysgrifennu at Tim Britstock i ofyn am y newyddion diweddaraf ar Gwaredu BVD fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf CHAWG (Ysgrifenyddiaeth)

## Eitem 8: Proses Penodiadau Cyhoeddus

42. Cafwyd cadarnhad gan y Cadeirydd y bydd yn dod â'i swydd fel Cadeirydd y Grŵp i ben ar 31 Mai 2018.

43. Cadarnhaodd NF y byddai Llywodraeth Cymru yn arwain ar y broses hon ac oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl, gan y byddai aelod o'r Grŵp am wneud cais o bosibl, dim ond ychydig o fanylion gallai grybwyll. Fodd bynnag, mae'r broses wedi mynd rhagddi a'r gobaith yw hysbysebu yn y flwyddyn newydd.

## Eitem 9: Cyfathrebu

44. Dywedodd y Cadeirydd sut y cafodd hyn ei drafod mewn cyfarfod blaenorol ar 6 Medi, angen dechrau gweithio ar hyn bellach yn fwy ffurfiol.

45. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd AR yn hapus i gefnogi'r gwaith hwn, yn enwedig o ran cysylltu gyda ffermwyr ifanc. Cytunodd AR.

46. Trafododd NF i'r Grŵp gael ei gynllun cyfathrebu ei hun, byddai CB yn datblygu hyn. Fodd bynnag mae angen i'r Grŵp arwain ar hyn a phenderfynu beth sy'n bwysig o ran beth sy'n cael ei gyfathrebu a phryd.

47. Gofynnodd NF a oedd yr adroddiad canol blwyddyn o gymorth, neu a fyddai'n well gwneud gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol gan nodi yr hyn y mae'r Grŵp wedi ei wneud ac ati. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n dda i'r Grŵp gael adroddiad byr, ac o hynny wneud mwy ar y cyfryngau/cysylltiadau cymdeithasol ar eitemau penodol ac astudiaethau achos o bosibl ayb.

48. Gofynnodd NF i'r aelodau ystyried opsiynau/syniadau ar ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol, ar gynulleidfaoedd ac ar yr hyn sy'n flaenoriaeth. Bydd CB yn dosbarthu rhagor o wybodaeth ac ymholiadau i ddechrau paratoi cynllun cyfathrebu drafft.

**Pwynt gweithredu 10>** Adolygiad Canol Blwyddyn i gael ei gyflwyno i'r Grŵp i drafod blaenoriaethau fydd yn cael eu rhannu'n fwy ffurfiol â'r cyhoedd. (Yr Ysgrifenyddiaeth)

**Pwynt Gweithredu 11 >** Paratoi Cynllun Cyfathrebu (CB)

**Eitem 10: Diweddaru'r CVO**

**Materion sy'n Codi**

49. Rhoddodd CG newyddion i'r Grŵp ynghylch y prif faterion sy'n codi yn rhyngwladol:
    - Y Ffliw Adar, mae Yr Almaen wedi adrodd ar hyn yn ddiweddar. Yr oedd oddeutu yr un amser yn 2016 pan gafodd y mater fwy o sylw yn y DU. Nodwyd, er bod risg Isel ar hyn o bryd ar gyfer Adar Domestig, roedd lefel y risg i Adar Gwyllt bellach wedi cynyddu o risg Isel i Canolig.
    - Y Tafod Glas, roedd achos o fath BTv4 yn y de-ddwyrain yn ddiweddar. (Mae Cymru wedi gweld y math Btv8 yn y gorffennol) Roedd 7 o anifeiliaid yn cael eu mewnfudo o Ffrainc nad oedd yn bodloni'r gofynion neu heb ddogfennau cywir. Cafodd yr adar heintus eu difa. Mae archwiliadau'n digwydd i weld sut y digwyddodd hyn.
    - Mae'r clefyd Nychdod Cronig wedi ei ganfod mewn Ceirw yn Norwy, y tro cyntaf iddo gael ei ganfod yn Ewrop. Mae hyn o ddiddordeb gan bod Ceirw Coch ym Mhrydain.

**TB**

50. Gyda mesurau TB newydd yn dechrau ym mis Hydref, mae llawer o drafodaethau'n digwydd ar hyn o bryd ar sut y mae hyn yn cael effaith ar y rhai hynny sy'n arddangos gwartheg drwy'r flwyddyn. Cafwyd cadarnhad gan CG ei fod yn hanfodol bod y gwaith yn parhau er mwyn cadw'r haint o Ogledd Cymru.

51. Mae trafodaethau parhaus hefyd ar symud gwartheg o ardaloedd risg isel i ardaloedd risg uchel yng Nghymru a rhwng ardaloedd cyfatebol yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig y broblem o rai achosion yn galw am brofi cyn symud a phrofi wedi symud. Mae hyn, mewn rhai achosion, wedi arwain at grwpiau yn cadw

anifeiliaid am gyfnod hwy mewn ardaloedd risg uchel er mwyn osgoi gorfod profi eto yn ystod dyddiadau sioeau pwysig.

52. Dywedodd CG y byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn cyhoeddi targedau dileu TB erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Mae llawer o waith i'w wneud eto i drafod TB gyda milfeddygon a sut y bydd hyn yn helpu gyda'r targedau hyn. Mae rhai problemau gyda hyd y rhagfynegiadau o ran dyddiadau targed, a hefyd drafodaethau ynghylch a fydd y targedau'n cael eu gosod yn rhanbarthol, neu yn genedlaethol.

53. Cododd y Cadeirydd y syniad o ymgyrchu eto ynghylch defnyddio dull o fasnachu yn seiliedig ar risg. Byddai hyn yn helpu i dynnu sylw at broblemau TB, BVD, y Clafr ac ati.

**Staffio**

54. Cafwyd cadarnhad gan CG bod Llywodraeth Cymru wedi cael hawl i recriwtio i swyddi penodol i helpu gyda gwaith Brexit.

55. Crybwyllodd CG weithio gyda DEFRA i wneud rhywfaint o waith ar fynd at wraidd y mater ym maes Iechyd a Lles Anifeiliaid. Dyddiadau i'w cadarnhau, ond byddai Llywodraeth Cymru yn rheoli'r cwmpas yn ofalus a byddai llawer o baratoadau ar gyfer hyn, ac mae'n bosibl y byddant yn cysylltu â'r Grŵp.

**Cysylltiadau gyda Cam-drin domestig a Chreulondeb i Anifeiliaid**

56. Dywedodd CG hanes seminar diweddar a fu ynddi gyda Paula, a diolchodd i Paula am ddigwyddiad mor ddiddorol. Rhoddwyd pwyslais i bwysigrwydd o gwaith o ran gweld cysylltiad rhwng cam-drin domestig a lles anifeiliaid. Dywedodd GC ei fod yn argymell i'r rhai sy'n gallu, fynd i seminarau o'r fath.

57. Cafwyd pryderon gan MJ ynghylch Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid yr UE a sut i'w gweithredu wedi gadael yr UE. Cyflwynodd PC y newyddion a'r syniadau diweddaraf.

**Pwynt Gweithredu 12 >**Sicrhau bod yr Adroddiad Monitro Clefydau Rhyngwladol yn cael ei ddosbarthu i'r grŵp (Ysgrifenyddiaeth)

**Pwynt Gweithredu 13 >**Eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ar Brexit a swyddogaeth y grŵp

**Eitem 11: UNRHYW FATER ARALL**

58. Roedd DD am grybwyll cyfarfod fu ynddo ar LIP (Rhaglen Gwybodaeth am Dda Byw) gan DEFRA ar hyn o bryd. Mae yr Alban yn bwriadu sefydlu system debyg. Roedd DD am wybod be oedd safle Cymru ar hyn?

59. Nid oedd CG wedi derbyn unrhyw wybodaeth am hyn yn ddiweddar. Yr Ysgrifenyddiaeth i edrych ar hyn a rhoi adborth i'r Grŵp

**DIWEDD**